

Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol



Cynllunio a Thai Strategol
Mawrth 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Statws a Chyfnodau Paratoi	3
3. Polisi Cynllunio	3
4. Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol	4
5. Egwyddorion Dylunio	5
6. Ceisiadau Cynllunio	8
7. Materion eraill	9
8. Cysylltiadau	10

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r nodyn hwn yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n amlygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 (CDLI) mewn fformat clir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd y datblygiad newydd. Bwriad y nodiadau yw cynnig canllawiau manwl i gynorthwyo'r cyhoedd, Aelodau'r Cyngor, datblygwyr posibl a Swyddogion i gyflwyno ceisiadau cynllunio, ac wrth geisio llunio penderfyniad yn eu cylch.

2. Statws y Ddogfen a'r Camau Paratoi

- 2.1 Nid yw Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cadarnhau y gellir trin CCAau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilydol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), wrth i'r ACLI, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. Cafodd y CCA hwn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 15 Mawrth 2017.

3. Polisi Cynllunio

- 3.1 Mae'r CCA hwn yn cefnogi polisi'r CDLI RD 1 ('Datblygu cynaliadwy a dylunio safonol da'). Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cynnig datblygu ac yn nodi bod yn rhaid i'r datblygiad *'gymryd i ystyriaeth ddiogelwch a sicrwydd personol a chymunedol yn nyluniad a chynllun y datblygiad a manau cyhoeddus / preifat ac ystyried goblygiadau o ran trosedd ac anhrefn'*.
- 3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn nodi bod *'atal troseddau ac ofn troseddau yn ystyriaethau cymdeithasol y mae'n rhaid i ACLI roi sylw iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu. Dylent gael eu hadlewyrchu mewn unrhyw CCA a gallant fod yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Y nod yw cynhyrchu amgylcheddau diogel drwy ddylunio da'*.
- 3.3 Cefnogir hyn ymhellach gan Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016) sy'n nodi diogelwch cymunedol fel un o'r pum agwedd ar ddylunio da.

Ffigur 1: 5 amcan dylunio da ('Dylunio' TAN 12, Llywodraeth Cymru)



4. Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol

- 4.1 Mae TAN 12 yn nodi amcanion cynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol fel (i) sicrhau mannau cyhoeddus deniadol, diogel a (ii) darparu diogelwch drwy wylidwriaeth naturiol.
- 4.2 Er na ellir dileu troseddau yn gyfan gwbl, gall ystyried diogelwch cymunedol yn ystod y cam dylunio datblygiadau leihau'r risgiau, ac ofn troseddau yn sylweddol. Gall dylunio da a llefydd deniadol annog ymdeimlad o 'berchnogaeth' ymysg y gymuned leol, sy'n cyfrannu at les ac ansawdd bywyd. Mae cynnal a chadw mannau cyhoeddus parhaus hefyd yn bwysig wrth feithrin ymdeimlad o falchder cymunedol a lleihau'r risg o drosedd.
- 4.3 Nid yw cynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol yn ymwneud ag ymgorffori mesurau 'caledu targed' yn unig (e.e. caeadau allanol) mewn datblygiadau ond yn hytrach defnyddio dyluniad a chynllun i wneud troseddau yn anoddach, yn haws i'w ganfod a chynyddu cyfranogiad y gymuned leol wrth atal trosedd.
- 4.4 Crëwyd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn 1998 i ddatblygu a gweithredu Strategaethau a chynlluniau gweithredu i leihau trosedd ac anrhefn. Mae Cynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych yn nodi meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys

lleihau trosedd ac anhrefn, a chanlyniadau i wella 'cynllunio i leihau trosedd' a lleihau byrgleriaethau oportiwnistaidd.

5. Egwyddorion Dylunio

- 5.1 Dylai egwyddorion cynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol gael eu hystyried fel rhan o'r cam dylunio a dylid eu cymhwyso i bob math o ddatblygiadau (e.e. preswyl, masnachol, manwerthu, cyfleusterau cymunedol ac ati).
- 5.2 Mae'r egwyddorion dylunio a nodir yn y CCA hwn yn seiliedig ar y fenter heddlu ledled y DU 'Diogelu Drwy Ddylunio'. Mae'r prosiect hwn yn ceisio gwella diogelwch cymunedol trwy ddylunio da ac mae wedi cyhoeddi canllawiau dylunio manwl ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r broses ddylunio. Mae'r canllawiau hyn ar gael drwy'r wefan www.securedbydesign.com.
- 5.3 Mae creu a chynnal amgylchedd o ansawdd uchel yn nodwedd bwysig o ddylunio da a chynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol. Dylai adeiladau, mannau cyhoeddus, llwybrau troed, tirlunio a chelfi stryd gael eu cynllunio i oroesi gydag ychydig iawn o waith cynnal a chadw. Dylai'r gofynion cynnal a chadw gael eu hystyried yn y cam dylunio a dylai'r darpariaethau ar gyfer unrhyw waith cynnal a chadw yn y dyfodol gael ei sefydlu hefyd ar gam cynnar.
- 5.4 Mewn perthynas â lleoliadau sensitif, fel ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac ardaloedd wedi'u dynodi ar gyfer eu gwerth tirlunio neu dreftadaeth, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gydbwyso amcanion diogelwch cymunedol gyda'r angen i warchod a gwella cymeriad ac edrychiad.
- 5.5 Cynllun a chyfeiriadedd adeiladau

Gall gynllun a chyfeiriadedd adeiladau wneud cyfraniad sylweddol at fwy o wyliadwriaeth naturiol. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai adeiladau fod â golygfeydd clir o eiddo cyfagos, mannau cyhoeddus, llwybrau troed a mannau chwarae. O ran datblygiad preswyl, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ganiatáu golygfa ddirwysr heb gyfaddawdu ar yr angen am breifatrwydd. Dylid osgoi blaen/talcen gwag sy'n wynebu ardaloedd cyhoeddus. Gall gynnwys cymysgedd o fathau o eiddo/defnyddiau hefyd gyfrannu at fwy o feddiannaeth yn ystod adegau gwahanol o'r dydd, er enghraifft darparu unedau preswyl ar loriau uwch mewn canol trefi.

Ffigur 2: Enghreifftiau o ddyluniad atal troseddau ('Diogelu Drwy Ddylunio')



The corner plot white dwelling in this illustration is orientated and overlooks the highway and public realm from both elevations. This approach avoids blank wall elevations facing onto the public realm which offers no natural surveillance and can attract vandalism.

This example shows an open space which benefits from natural surveillance provided by the orientation and overlooking from surrounding dwellings.



5.6 Cynllun ffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau troed

Mae llwybrau sy'n cael eu defnyddio yn helaeth yn hyrwyddo gwyliadwriaeth naturiol ac yn gallu cynnig ymdeimlad cryfach o ddiogelwch. Dylai llwybrau cerbydau a cherddwyr fod yn glir, yn gyfleus ac wedi'u goleuo'n dda er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio. Dylai llwybrau cyhoeddus osgoi darparu mynediad heb oruchwyliaeth i gefn tai a manau preifat eraill.

- 5.7 Mae strydoedd a gynlluniwyd yn dda yn annog pobl i'w defnyddio ac yn gwneud mynd y tu allan yn brofiad plerus a diogel. Mewn ardaloedd preswyl, dylai dyluniad gosodiadau stryd annog traffig ar gyflymder is sy'n ffafriol i amgylchedd diogelach i gerddwyr a beicwyr. Dylai dylunio strydoedd fod yn gynhwysol, gan ddarparu llwybrau diogel i bawb waeth beth fo'u hoedran neu eu gallu, a dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r angen am llwybrau cerdded diogel i ysgolion a chyfleusterau lleol eraill. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at TAN 12 Llywodraeth Cymru 'Dylunio', 'Llawlyfr Strydoedd' (Yr Adran

Drafnidiaeth, 2007) a 'Llawlyfr Strydoedd 2' (Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant, 2010) am arweiniad ar arferion gorau mewn perthynas â chynllun a dylunio.

5.8 Ardaloedd Cymunedol

Dylai manau cyhoeddus a manau chwarae gael eu lleoli i ganiatáu goruchwyliaeth o adeiladau cyfagos, gyda llwybrau diogel i'r rhai sy'n defnyddio'r ardaloedd hyn.

5.9 Ffiniau

Dylai ffiniau rhwng manau preifat a chyhoeddus gael eu diffinio'n glir i ddangos yr ardaloedd sy'n eiddo i a dan reolaeth y deiliaid. Gall ffiniau gael eu diffinio trwy amrywiol driniaethau, gan cynnwys ffensio, plannu, triniaethau arwyneb ac ati a dylid osgoi creu 'meddylfryd caer'. Dylai ffiniau blaen yr eiddo fod yn agored a dylid defnyddio triniaethau ffiniol cadarn ar gyfer yr ochr a cefn.

5.10 Tirlunio a phlannu

Gall tirlunio a phlannu gyfrannu at amgylchedd deniadol o ansawdd uchel, ond ni ddylai rwystro gwyliaeth naturiol a dylid osgoi creu cuddfannau posibl. Gall rhai rhywogaethau o blanhigion weithredu fel rhwystr ar gyfer mynediad heb awdurdod a gwella diogelwch ffiniau, er enghraifft llwyni pigog. Dylid ffafrio nodweddion tirlunio a rhywogaethau planhigion sy'n llesol i fywyd gwylt brodorol.

5.11 Parcio

Dylai manau parcio cerbydau fod yn agored ac wedi'i oleuo'n dda, gyda pharcio cymunedol yn ddelfrydol mewn grwpiau bach yn agos at adeiladau ac, mewn datblygiadau preswyl, o fewn golwg ystafelloedd gweithredol (h.y. ceginau, ystafelloedd byw). Dylai manau parcio cyhoeddus, er enghraifft o fewn canol trefi, gynnwys arwyddion clir ar gyfer mynediad/allanfa a llif y traffig, mesurau gwyliaeth a digon o olau. Mae cynnal a chadw manau parcio yn barhaus hefyd yn bwysig wrth leihau ofn trosedd ac atal graffiti, difrod troseddol ac ati.

5.12 Gall darpariaeth parcio anaddas neu'n annigonol beri risg i ddiogelwch cerddwyr a defnyddwyr ffyrdd, os yw'n arwain at barcio gormodol ar y stryd neu barcio heb awdurdod. Gall hyn hefyd achosi anawsterau ar gyfer mynediad, ac amseroedd ymateb ar gyfer cerbydau argyfwng. Mewn datblygiadau preswyl, dylai parcio cwrttil a garejis gael eu

darparu fel yr opsiwn parcio mwyaf diogel lle bynnag y bo modd, ac yn ddelfrydol wedi'u lleoli wrth ymyl yr annedd. Dylai cynigion datblygu gymryd i ystyriaeth y gofynion dylunio a nodir yn y 'Llawlyfr Strydoedd' (Yr Adran Drafnidiaeth, 2007), a chanllawiau manwl ar y ddarpariaeth barcio a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig y Cyngor 'Gofynion Parcio mewn Datblygiadau Newydd' (2014).

5.13 Goleuadau Allanol

Mae angen cydlynu goleuadau yn ofalus i sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gwelededd, yn enwedig mewn ardaloedd diamddiffyn, ond heb greu niwsans neu lygredd golau. Gall gormod o oleuadau neu oleuo ysbeidiol cael effaith negyddol ar drigolion lleol, bywyd gwyllt a maint yr 'awyr dywyll' yn y sir.

5.14 Cymhorthion dringo

Gall nodweddion fel waliau terfyn, storfeydd biniau / tanwydd, dodrefn stryd, toeau gwastad, balconiau ac ati greu'r potensial ar gyfer cael mynediad i lorïau uwch eiddo a dylid eu cynllunio neu eu lleoli er mwyn sicrhau bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu lleihau.

5.15 Arwyddion

Dylai ffyrdd ac adeiladau fod wedi'u henwi yn glir a/neu wedi'u rhifo i ddynodi perchnogaeth, diffinio manau cyhoeddus a phreifat, a rhoi cymorth i breswylwyr a gwasanaethau brys.

6. **Ceisiadau Cynllunio**

- 6.1 Mae cynllunio ar gyfer diogelwch cymunedol yn rhan o ddylunio da a dylid mynd i'r afael â hyn yng nghramau dylunio cynnar unrhyw gynnig, ac fel rhan o'r trafodaethau cyn gwneud cais gyda'r tîm Rheoli Datblygu. Dylai cynigion ymateb i amgylchiadau lleol drwy ystyried troseddau presennol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ofn trosedd ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch a diogeledd cymunedau ac eiddo.
- 6.2 Mae'n ofyniad statudol i rai ceisiadau cynllunio a cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig ddod gyda Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS). Lle mae angen DAS, mae hyn yn darparu dull defnyddiol i gyfleu sut mae amcanion dylunio da (gan gynnwys diogelwch cymunedol) wedi llywio'r cynnig datblygu.

6.3 Mae Swyddog 'Cynllunio i Leihau Trosedd' Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i awdurdodau lleol, penseiri a datblygwyr wrth gynghori ar ddiogelwch cymunedol a materion dylunio manwl. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r Swyddog Cynllunio er mwyn Atal Trosedd mewn perthynas â cheisiadau cynllunio llawn a materion a gadwyd yn ôl ar gyfer datblygiadau mawr a cheisiadau lle gall y lleoliad neu'r defnydd arfaethedig achosi problemau o ran trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

7. Materion eraill

7.1 *Ymrwymadau Cynllunio*

Dylai pob cynnig datblygu roi ystyriaeth i'r egwyddorion a geir yn y CCA hwn. Mewn achosion lle na ellir goresgyn pryderon ynghylch cynnig trwy ddefnyddio amodau, efallai y bydd y Cyngor yn gofyn am rwymedigaethau cynllunio. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori yn ddiweddar ar CCA ar rwymedigaethau cynllunio, sy'n cynnwys canllawiau ychwanegol ar fesurau a all fod eu hangen i wella diogelwch cymunedol (adran 17).

7.2 *Rheoliadau Adeiladu*

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru safonau gorfodol, drwy Rheoliadau Adeiladu, yn ymwneud â diogelwch preswyl ('Rhan Q') ym mis Ionawr 2017. Maent yn canolbwyntio ar ei gwneud yn anoddach i dargedu ffenestri a drysau mewn anheddau newydd.

7.3 *Gwrth derfysgaeth*

Gall rhai ardaloedd cyhoeddus fod yn darged ar gyfer gweithgaredd terfysgol a dylai datblygiadau mawr sy'n agored i'r cyhoedd, neu rai sy'n agos at ddatblygiadau o'r fath, ystyried sut y gellir ymgorffori mesurau diogelwch amddiffynnol yn nyluniad y cynnig. Dylai unrhyw fesurau sy'n cael eu hymgorffori fod yn gymesur â'r risg ac ni ddylai beryglu egwyddorion 'dylunio da'. Mae arweiniad pellach ar hyn wedi cael ei gyhoeddi fel rhan o agenda 'Mannau Poblog' Llywodraeth y DU.

7.4 *Mentrau Sir Ddinbych*

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid ar hyn o bryd yn cymryd rhan mewn prosiectau amrywiol sy'n ceisio gwella ymddangosiad manau cyhoeddus, a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch

cymunedol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag ymddangosiad safleoedd 'hyll' a nodwyd yn y sir, yn ogystal â mentrau i wella tir y cyhoedd a'r amgylchedd adeiledig yng Ngorllewin y Rhyl.

8. Cysylltiadau

Rheoli Datblygu
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706727
E-bost:
cynllunio@sirddinbych.gov.uk

Cynllunio a Thai Strategol
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706916
E-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk

Swyddog Cynllunio i Leihau Trosedd - Conwy / Sir Ddinbych
Heddlu Gogledd Cymru
Ffôn: 01745 588893
E-bost: david.williams8@nthwales.pnn.police.uk